# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 11.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13778

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Sarah Murphy AS<br>James Evans AS<br>Jane Dodds AS |
| Tystion: | Clare Sim, Rheolwr Cymorth a Chyngor Aelodau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol<br>Colin Everett, Cadeirydd, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Catherine Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Josh Hayman (Ymchwilydd)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar AS. Dirprwyodd James Evans AS ar ei ran.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Heledd Fychan AS.

Croesawodd y Cadeirydd Jane Dodds AS, a oedd yn bresennol yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda gweinyddwyr Etholiadol

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch cwestiynau dilynol ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 8 Tachwedd 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn friffio dechnegol

Nododd y Pwyllgor y briffio cefndirol ychwanegol.